

Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd Llun © Pete Fowler / Llenyddiaeth Cymru

## Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

Llawn amser (37 awr)

Cytundeb blwyddyn o hyd, gyda'r posibiliad y caiff ei ymestyn ymhellach, i ddechrau ym mis Awst neu Medi 2019

**Cyflog:** £20,000 - £23,000 y flwyddyn

**Lleoliad:** Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy

**Dyddiad Cau:** 1 Awst 2019, 5.00 pm **Cyfweliadau:** Wythnos yn dechrau 12 Awst

---

### Llenyddiaeth Cymru - Amdanom ni

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Ein nod yw ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru.

Tŷ Newydd yw Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru. Mae'r ganolfan yn rhan ganolog o waith Llenyddiaeth Cymru ac yn cyfrannu at y dair colofn weithgaredd yn ein Cynllun Strategol 2019-22.

Ers agor ein drysau yn 1990, mae miloedd o awduron wedi camu dros drothwy ein drws gwyrddlas eiconig. Cynhelir cyrsiau ysgrifennu creadigol preswyl yn Nhŷ Newydd, gan groesawu grwpiau o bob cwr o'r byd. Mae'r rhaglen yn cynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau preswyl ac encilion – yn y Saesneg a'r Gymraeg – mewn amryw o genres a themâu, yn cynnwys barddoniaeth, ffuglen, ffeithiol-greadigol, sgriptio, ysgrifennu am fyd natur, dylunio, adrodd straeon a mwy. I ddysgu mwy am waith Llenyddiaeth Cymru yn y Ganolfan, ewch i www.tynewydd.cymru.

## Diwrnod ym mywyd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

Yn eich diwrnod gwaith byddwch yn cyflawni ystod o dasgau; o baratoi'r tŷ a chroesawu gwesteion, awduron a thiwtoriaid, i drefnu a rheoli cyrsiau a digwyddiadau, a gwaith dylunio ag ysgrifennu copi am brosiectau amrywiol.

Yn ogystal â hyn, byddwch yn ysgrifennu ceisiadau am nawdd; hyrwyddo cyrsiau Tŷ Newydd; ateb ymholiadau am gyrsiau; llunio negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, a gwaith monitro a gwerthuso.

Ar rai dyddiau bydd gofyn i chi hefyd reoli digwyddiadau, ac fe fyddwch yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru mewn cyfarfodydd ac mewn cyfleoedd rhwydweithio ar draws y sector lenyddol a chelfyddydol. Mae llawer o'r gwaith yn gofyn am feddwl dyfeisgar, y gallu i roi sylw i fanylder, a sgiliau da gyda phobl.

Rydym yn dîm o staff cyfeillgar ac ymroddedig sydd yn gweithio yn Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Lleolir ein swyddfeydd yn Llanystumdwy ac yng Nghaerdydd.

## Am y Rôl

Bydd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu yn gweithio o **Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, ac yn **gyfrifol am greu a chydlynu cynllun marchnata** gyda'r nod o gynyddu proffil y Ganolfan a'i gweithgareddau a chodi ffigyrau cyfranogiad a gwerthiant y cyrsiau.

Bydd y swyddog hefyd yn cynorthwyo tîm y ganolfan gyda **rhaglennu gweithgareddau blynyddol**, yn cynnwys **trefnu a chyfathrebu** cyrsiau ysgrifennu creadigol, cyrsiau ysgolion a digwyddiadau yn y gymuned.

Mae'r Swyddog hefyd yn **arwain ar brosiectau cenedlaethol** megis Her100Cerdd ac yn cydlynu datblygiadau a diweddariadau i Restr Awduron Cymru. Bydd disgwyl i'r swyddog ymgymryd â **dyletswyddau lletygarwch** yn cynnwys croesawu preswylwyr a rheoli digwyddiadau, yn achlysurol yn ystod oriau anghymdeithasol.

Bydd y **Swyddog Marchnata a Chyfathrebu** yn:

- Creu a chyflawni cynllun marchnata a gwerthiant cyrsiau ar gyfer Tŷ Newydd
- Ysgrifennu, golygu, cyfieithu a phrawf ddarllen copi a chynnwys digidol yn y Gymraeg a'r Saesneg, megis straeon newyddion a chylchlythyron
- Gweinyddu'r gyllideb hysbysebu a marchnata
- Gwaith dylunio i hyrwyddo gweithgareddau a phrosiectau gan ddefnyddio Adobe Photoshop
- Cefnogi'r Pennaeth Cyfathrebu a'r Rheolwr Cyfathrebu gyda materion yn ymwneud â'r cyfryngau a magu perthynas gyda'r wasg a'r cyfryngau yn lleol
- Cydlynu Rhestr Awduron Cymru ar wefan Llenyddiaeth Cymru
- Cydlynu prosiectau cenedlaethol megis Her100Cerdd
- Cynorthwyo'r tîm yn y Ganolfan i drefnu gweithgareddau a chyrsiau, yn cynnwys trefnu a chydlynu cyrsiau i ysgolion
- Dyletswyddau lletygarwch yn cynnwys croesawu preswylwyr, datrys problemau yn ymwneud â'u harhosiad, rhoi araith groeso yn achlysurol i grwpiau, a briffio tiwtoriaid
- Gwerthuso a monitro profiadau cynulleidfaoedd
- Dirprwyo i Bennaeth Tŷ Newydd a'r Rheolwr Safle pan fo angen, ac unrhyw dasgau eraill ar gais y sefydliad

## Addasrwydd ar gyfer y rôl

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau, profiadau, a'r rhinweddau canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg ardderchog, yn ysgrifenedig a llafar
- Profiad o weinyddu cyfrifon rhwydweithiau cymdeithasol a phrofiad mewn marchnata a/neu gysylltiadau cyhoeddus
- Profiad o gydlynu prosiectau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau
- Profiad o weinyddu cyllidebau ac ysgrifennu adroddiadau
- Sgiliau trefnu rhagorol, sylw i fanylder a'r gallu i weithio dan bwysau
- Hyblygrwydd i weithio oriau anghymdeithasol yn gyson
- Y gallu i feddwl yn greadigol
- Arddull gweithio effeithiol ac agwedd bositif at gydweithio
- Profiad mewn dylunio gyda rhaglenni Microsoft Office a/neu Photoshop
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gar

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn darparu Gwiriad Cofnodion Troseddol (*DBS Check*) i'r ymgeisydd llwyddiannus.

## Sut i wneud cais

1. **Darllenwch** y swydd ddisgrifiad a'r rhestr addasrwydd uchod yn ofalus. Yn ogystal, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-2022 yma.

2. **Ysgrifennwch lythyr cais** nad yw'n fwy na 2 dudalen A4 **neu greu cais fideo** dim hirach na 5 munud (mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal). Rhowch wybod i ni **pam** fod diddordeb gennych yn y swydd, a **sut** ydych chi'n gymwys i gyflawni gofynion y swydd hon, e.e. oes gennych brofiad neu gymwysterau, neu ddiddordeb penodol mewn elfennau ohoni?

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **5.00 pm ar ddydd Iau 1 Awst, 2019**.

   - Eich llythyr neu gais fideo;
   - Eich CV (heb fod yn fwy na thair tudalen A4) a manylion dau ganolwr sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
   - Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru (ar gael yma).

## Beth fydd yn digwydd wedyn?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau, ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus am gyfweliad yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 12 Awst 2019. Bydd tri pherson ar y panel cyfweld yn cynrychioli staff Llenyddiaeth Cymru a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bydd tasg fechan greadigol yn dilyn y cyfweliad hefyd, a bydd canlyniad y dasg yn cael ei hasesu ochr yn ochr â'r cyfweliad. Er yn gyfweliad ffurfiol, byddwn yn ceisio sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses gyfweld. Bydd cyfle i bob ymgeisydd gael taith dywys o amgylch Tŷ Newydd yn ystod y dydd. Os yw'r broses gyfweld yn peri pryder i chi, gadewch i ni wybod o flaen llaw, a gallwn drefnu sgwrs neu gyfarfod anffurfiol mewn lleoliad o'ch dewis gyda Leusa Llewelyn, Pennaeth Tŷ Newydd, cyn y cyfweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y swydd o flaen llaw, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. Ffoniwch 01766 522 811 i siarad â Leusa Llewelyn neu e-bostiwch yn uniongyrchol Leusa@llenyddiaethcymru.org

Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr oll â chanlyniad y cyfweliadau cyn 5.00 pm ar brynhawn Mawrth 20 Awst ar yr hwyraf.

---

## Ein polisi recriwtio

Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries, sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol. Rydym wedi ymrwymo at groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail cryfder potensial. Os hoffech ymgeisio am y swydd hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

---

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac mae'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*